Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Dai

15 Mai 2023

Yn bresennol:

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Mabon ap Gwynfor AS | Senedd Cymru (Cadeirydd) |
| Ruth Power | Shelter Cymru |
| Jennie Bibbings | Shelter Cymru |
| Matthew Palmer | Shelter Cymru |
| Wendy Dearden | Shelter Cymru |
| Elen Grantham | Shelter Cymru |
| Ross Thomas | Tai Pawb |
| Bill Rowlands | EYHC |
| Matthew Dicks | CIH Cymru |
| Cerys Clark | CIH Cymru |
| Y Cynghorydd Alun Llewelyn | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Ryland Doyle | Swyddfa Mike Hedges AS |
| Robert Smith | Prifysgol Caerdydd |
| Tim Thomas | Propertymark |
| Carys Fôn Williams | Cyngor Gwynedd |
| Becky Ricketts | Gofal a Thrwsio Cymru |
| Ceri Cryer | Age Cymru |
| David Bithell | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Katie Dalton | Cymorth Cymru |
| Manon Roberts | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Jasmine Harris | Crisis |

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Elizabeth Taylor | TPAS Cymru |
| Sara Burch | Cyngor Sir Fynwy |
| Amy Lee Pierce | Y Wallich |
| Kathryn Morgan | Shared Lives Plus |
| Lu Thomas | Sipsiwn a Theithwyr Cymru |
| Philippa Richards | Y Senedd |
| Matt Harris | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi |
| Carolyn Thomas | Y Senedd |
| Donna Oldfield | Sipsiwn a Theithwyr Cymru |
| Faye Patton | Gofal a Thrwsio Cymru |
| Y Cynghorydd David Daniels | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Gareth Lyn Montes | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| Thomas Hollick | Y Wallich |
| Natalie Thompson | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Carolyn Johnstone | Byddin yr Iachawdwriaeth |
| Bethany Howells | Prifysgol Caerdydd |
| Casey Edwards | Cwmpas |
| Andy Thompson | Cyngor Sir Powys |
| Y Cynghorydd Emily Owen | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cynghorydd Shayne Cook | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |

| Eitem ar yr agenda | Nodiadau |
|---|---|
| Croeso gan y Cadeirydd | Croesawodd Mabon ap Gwynfor AS bawb i’r cyfarfod cyn amlinellu agenda’r sesiwn a throsglwyddo’r awenau i’r cyflwynwyr. |
| Y Cysylltiadau rhwng Tai ac Iechyd | Bydd cyflwyniad pob siaradwr ar gael fel dogfen ar wahân.<br><br>**Cyflwyniad 1: Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru**<br>Becky Ricketts a Faye Patton, Gofal a Thrwsio Cymru<br><br>Gellir gweld yr adroddiad yma: https://careandrepair.org.uk/cy/tai2023/<br><br>Mae Gofal a Thrwsio yn cynnal Gwiriadau Cartrefi Iach yng nghartrefi pobl hŷn ac, yn ddiweddar, mae wedi canolbwyntio ar 3 phrif wasanaeth/prosiect:<br>1. Ysbyty i Gartref Iachach<br>2. Ymdopi'n Well |

| | |
|---|---|
| | 3. A yw eich cartref yn ddigon cynnes?<br><br>Mae cryn dipyn o alw am gwasanaethau Gofal a Thrwsio ac yn gynyddol mae’r asiantaeth yn gweld anghenion mwy cymhleth a phroblemau atgyweirio mawr.<br><br>Mae ymweliadau â chartrefi yn aml yn dangos materion ychwanegol a phroblemau cymhleth, lluosog sy'n fwy na’r hyn a dybiwyd yn wreiddiol.<br><br>Roedd lluniau o dai mewn cyflwr gwael a ddangoswyd yn y cyflwyniad yn syfrdanol. Dysgodd pobl i ymdopi â byw gartref yn ystod cyfyngiadau’r pandemig a daethant i arfer â rheoli adfeiliad a byw gydag ef nes iddo ddod yn normal. Mae cost gynyddol deunyddiau a'r diffyg crefftwyr sydd ar gael i wneud y gwaith yn faterion mawr i'r asiantaeth a'i chleientiaid.<br><br>**Cyflwyniad 2: Gohirio Iechyd Meddwl – Effaith Tai Gwael ar Iechyd Meddwl.**<br>Amy Lee Pierce a Thomas Hollick, Y Wallich<br><br>Gellir gweld yr adroddiad yma: https://thewallich.com/cy/campaigns/gohirio-iechyd-meddwl/<br><br>Canolbwyntiodd y cyflwyniad ar yr argyfwng iechyd meddwl ymysg pobl ddigartref. Trwy arolygon staff, nododd y Wallich fod y broses o gael cymorth iechyd meddwl mewn argyfwng yn anodd, a bod hynny’n arwain at fwy o alw ar wasanaethau brys.<br><br>Rhannwyd methodoleg, ystadegau allweddol a chanfyddiadau. Rhwng 2019 a 2022, deliodd y Wallich â chyfanswm o 4,216 o ddigwyddiadau a oedd yn aml yn arwain at sefyllfa o argyfwng. Y gwir amdani yw bod pobl mewn argyfwng iechyd meddwl yn wynebu rhwystrau di-rif o ran cael mynediad at wasanaethau’n gyflym. Dylai’r Fframwaith i Gymru sy’n Ystyriol o Drawma gael ei gymhwyso i wasanaethau iechyd meddwl hefyd. |
| Fforwm | **Adroddiadau**<br><br>**Ross Thomas (Tai Pawb) -** croesawodd yr adroddiadau. Mae tai yn benderfynydd iechyd ond nid yw hyn yn dod drwodd mewn polisi – mae angen canolbwyntio ar hyn. Mae argyfwng tai hygyrch ar ben yr argyfwng tai. Dylai’r hawl i gael tai digonol gael ei gwreiddio fel hawl ddynol.<br><br>**Sarah Burch (Sir Fynwy)** – a oes rôl i ryddhau ecwiti o ran gwella cartrefi?<br><br>**Becky Ricketts -** Mae Gofal a Thrwsio yn canolbwyntio ar wella cartrefi heb i bobl orfod eu gadael. Mae’n bosibl y bydd angen gwerth y cartref ar rhai i dalu am ofal yn ddiweddarach.<br><br>**Jennie Bibbings (Shelter Cymru**) – Dylem gofio bod addasrwydd tai yn effeithio ar iechyd meddwl.<br><br>**Thomas Hollick** – Mae angen i gymorth gael ei integreiddio i gynlluniau Tai yn Gyntaf.<br><br>**Katie Dalton (Cymorth Cymru) -** Mae cyfrifoldeb am Ailgartrefu Cyflym yn disgyn ar ysgwyddau timau sydd eisoes yn straffaglu. Mae angen buddsoddiad cyfalaf a chefnogaeth gyffredinol.<br><br>**Cyllideb Llywodraeth Cymru 2023/24** |

| | |
|---|---|
| | Trafodwyd y gyllideb yn y cyfarfod diwethaf ac mae bellach wedi'i setlo. Codwyd materion mewn llythyr at y Gweinidog Cyllid, gan gynnwys:<br>• Cyllid ar gyfer datgarboneiddio'r stoc tai – cynyddwyd y cyllid<br>• Grant Cymorth Tai – heb ei gynyddu<br><br>**Katie Dalton -** Mae'n siom i'r sector beidio â chael cynnydd yn y Grant Cymorth Tai. Yn anochel, bydd effaith ar y sector, sy'n peri pryder. Mae darparwyr cymorth bellach mewn trafodaethau â Chomisiynwyr Awdurdodau Lleol. Y realiti debygol fydd llai o wasanaethau, er gwaetha'r ffaith bod y galw eisoes yn fwy na'r cyflenwad. Bydd hefyd yn golygu gostyngiadau yn niferoedd staff. Ni all cyflenwyr fforddio rhedeg eu gwasanaethau.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Cytunwyd y byddai llythyr dilynol yn cael ei anfon yn gofyn i'r Llywodraeth sut y bydd yn cynorthwyo'r sector. |
| Cloi'r cyfarfod | Diolchodd Mabon ap Gwynfor AS y bobl bresennol a'r siaradwyr.<br><br>Atgoffodd Mabon bawb y bydd y cofnodion ar gael gan Shelter Cymru maes o law a daeth â'r cyfarfod i ben. |
| Dyddiad y cyfarfod nesaf | **Dydd Llun 2 Hydref 2023, 09.30-10.30 ar Teams** |